

HORIZON

NUCLEAR POWER



Wylfa Newydd Project

8.18 Health Impact Assessment Non-Technical Summary (Welsh language)

PINS Reference Number: EN010007

Application Reference Number: 8.18

June 2018

Revision 1.0

Regulation Number: 5(2)(q)

Planning Act 2008

Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

[This page is intentionally blank]

Cynnwys

1	Cipolwg.....	1
2	Crynodeb annhechnegol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.....	3
2.1	Cyflwyniad	3
2.2	Prosiect Wylfa Newydd.....	3
	<i>Prosiect DCO Wylfa Newydd.....</i>	<i>3</i>
	<i>Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu.....</i>	<i>5</i>
	<i>Gwaith Galluogi.....</i>	<i>5</i>
2.3	Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.....	5
	<i>Pwrpas yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.....</i>	<i>5</i>
	<i>Y Grŵp Llywio</i>	<i>6</i>
	<i>Beth ydy Iechyd a Lles?.....</i>	<i>6</i>
	<i>Beth all effeithio ar Iechyd a Lles?.....</i>	<i>6</i>
	<i>Beth mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ei gynnwys?.....</i>	<i>7</i>
	<i>Beth sydd ddim yn cael ei gynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?.....</i>	<i>8</i>
2.4	Effeithiau Iechyd, mesurau lliniaru a gwella.....	9
	<i>Effeithiau'r Prosiect ar Iechyd a Lles.....</i>	<i>9</i>
	<i>Manteision.....</i>	<i>9</i>
	<i>Effeithiau niweidiol.....</i>	<i>12</i>
	<i>Effeithiau'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a Datblygiadau Cysylltiedig ar Iechyd a Lles</i>	<i>17</i>
	<i>Effeithiau cyffredinol ar Iechyd a Lles</i>	<i>17</i>
2.5	Beth sy'n digwydd nesaf?.....	23

Rhestr o'r Ffigurau

Ffigur 2-1	Enghreifftiau o ddylanwadau cyffredin ar ein Iechyd a'n Lles.....	7
------------	---	---

Rhestr o'r Tablau

Tabl 2-1	Crynodeb o'r effeithiau Iechyd a Lles ar gyfer grwpiau poblogaeth daearyddol	19
Tabl 2-2	Crynodeb o'r effeithiau Iechyd a Lles ar gyfer grwpiau a allai fod yn agored i niwed mewn poblogaethau daearyddol	20

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

1 Ciplwg

1.1.1 Mae Horizon yn cynllunio gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn yng Nghymru. Edrychodd 'Asesiad o'r Effaith ar Iechyd' ar sut gallai hyn effeithio ar iechyd. Mae hyn yn cynnwys amodau i gadw'n iach, i allu ymdopi ac i wireddu eich potensial. Mae'r asesiad yn edrych ar sut gallai pobl mewn ardaloedd gwahanol gael eu heffeithio. Mae hefyd yn nodi lle gallai rhai pobl weld mwy o effeithiau. Mae'r asesiad yn ystyried gwahanol fathau o wybodaeth, fel:

- sut mae'r amodau ar hyn o bryd;
- cynlluniau a blaenoriaethau lleol;
- beth mae'r llenyddiaeth wyddonol yn ei ddweud;
- barn sefydliadau a phobl leol; a
- beth sy'n rhaid ei wneud i ddiogelu pobl a'r amgylchedd.

1.1.2 Mae sefydliadau lleol a chenedlaethol wedi arwain yr asesiad. Ar y cyfan, daw'r asesiad i'r casgliad y byddai'r Prosiect yn dda ar gyfer iechyd. Fodd bynnag, byddai effeithiau manteisiol a niweidiol ar draws gwahanol grwpiau. Mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau niweidiol yn ystod y cam adeiladu, ac mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau manteisiol yn ystod y cam gweithredu. Dyma grynhof'r prif ganlyniadau:

- byddai'r Prosiect yn tarfu fwyaf ar bobl ger y safle adeiladu;
- efallai byddai'r ffyrdd a ddefnyddir i gael gafael ar ofal iechyd ychydig yn arafach am gyfnod;
- byddai ffyrdd osgoi newydd yn gwneud pentrefi ar hyd yr A5025 yn fwy diogel;
- nid yw'n debygol yr effeithir ar iechyd pobl ger y cyfleuster parcio a theithio;
- yn gyffredinol, bydd pobl yng Nghaergybi a'r ardal gyfagos fymryn ar eu hennill;
- byddai iechyd pobl ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Cymru yn gwella'n gyffredinol;
- byddai'r manteision yn ymestyn ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig hefyd;
- yn gyffredinol, pobl ifanc fydd yn elwa fwyaf ar y cyfleoedd;
- yn gyffredinol, efallai y byddai pobl hŷn yn gweld mwy o aflonyddwch ac yn elwa llai;
- yn gyffredinol, byddai pobl sydd eisoes ag iechyd gwael yn fwy sensitif; ac
- yn gyffredinol, byddai pobl sydd eisoes yn ddifreintiedig ar eu hennill.

1.1.3 Petai'r Prosiect yn amharu, byddai mesurau i helpu, ee:

- rhoi gofal iechyd i weithwyr i sicrhau nad yw'r gwasanaethau GIG lleol mewn gwaeth sefyllfa; a
 - gweithio gyda chymunedau lleol fel eu bod yn ddiogel, yn ddeniadol ac yn ffynnu.
- 1.1.4 Byddai grŵp o arbenigwyr iechyd (ee gwasanaethau GIG lleol) yn gwirio'r union effeithiau. Byddai mesur ychwanegol yn cael ei roi yn ei le pe bai angen.

2 Crynodeb Annhechnegol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

2.1 Cyflwyniad

- 2.1.1 Mae Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (Horizon) yn gwmni ynni yn y Deyrnas Unedig sy'n datblygu'r genhedlaeth nesaf o orsafoedd pŵer niwclear. Nod Horizon ydi adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd, Wylfa Newydd ar arfordir gogleddol Ynys Môn, ger pentref Cemaes ac wrth ymyl cyn orsaf bŵer niwclear Magnox, sef yr Orsaf Bŵer Bresennol.
- 2.1.2 Byddai'r Orsaf Bŵer arfaethedig yn cyflenwi trydan diogel a sicr i tua phum miliwn a hanner o dai. Byddai'n creu 850 o swyddi parhaol, gyda gweithlu adeiladu o tua 4,000 a fydd yn codi i tua 9,000 o weithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf. Byddai hefyd yn dod â manteision i ogledd Cymru ac i gymunedau lleol nid yn unig drwy gyfleoedd gwaith a hyfforddiant ond hefyd oherwydd y galw am nwyddau a gwasanaethau lleol.
- 2.1.3 Fel datblygwr cyfrifol, mae Horizon wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni lefelau iechyd a diogelwch o'r radd flaenaf ar Brosiect DCO Wylfa Newydd. Mae Horizon hefyd yn credu y dylai annog lles mewn cymunedau lleol.
- 2.1.4 Pan fydd prosiectau mawr fel hwn yn cael eu hadeiladu yng Nghymru, mae'n arfer da ac yn cael ei awgrymu gan bolisiâu cenedlaethol a lleol i gwblhau asesiad er mwyn deall sut gallai'r prosiect effeithio ar agweddau iechyd a lles bywyd - Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ydy'r enw ar hyn. Caiff canfyddiadau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Horizon eu disgrifio yn Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) sydd wedi'i gynnwys yn y cais am gydsyniad datblygu. Mae'r ddogfen hon yn grynodeb annhechnegol o'r adroddiad hwnnw.
- 2.1.5 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn canolbwyntio ar iechyd a lles cymunedol, ac nid ar iechyd a diogelwch yn y gweithle.

2.2 Prosiect Wylfa Newydd

- 2.2.1 Mae Horizon yn cynnig adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, sy'n cynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd, y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu a'r Gwaith Galluogi. Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu disgrifio'n fanylach isod. Bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael cydsyniad o dan DCO a bydd y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cael cydsyniad o dan Drwydded Forol. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y naill a'r llall; bydd y Gwaith Morol (gweler isod) yn cael cydsyniad o dan y DCO a'r Drwydded Forol.

Prosiect DCO Wylfa Newydd

- 2.2.2 Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys y rhannau hynny o Brosiect Wylfa Newydd a fydd yn cael cydsyniad drwy DCO, sef:

Y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

- Yr Orsaf Bŵer: gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, gan gynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau, adeiladau, strwythurau ac offer cefnogol, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a'r Cysylltiad â'r Grid.
- datblygiadau eraill ar y safle: gan gynnwys gwaith tirweddu a phlannu, draeniau, systemau rheoli dŵr wyneb, gwaith mynediad i'r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol, Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffyrdd mewnol y safle, meysydd parcio, gwaith a gweithgareddau adeiladu gan gynnwys compowndiau adeiladu ac ardaloedd parcio dros dro, ardaloedd gosod, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro, ardal dros dro i wyllo'r gwaith adeiladu, dargyfeirio cyfleustodau, ffens y ffin a ffensys adeiladu a chysylltiadau trydan.
- Gwaith Morol sy'n cynnwys:
 - Gwaith Morol Parhaol: y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu'r lan, manau gollwng draeniau dŵr wyneb, man gollwng carthffrwd dŵr gwastraff (a draeniau cysylltiedig dŵr wyneb a charthffrwd dŵr gwastraff i'r môr), system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a Charthu;
 - Gwaith Morol Dros Dro: argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, manau gollwng dros dro ac angorfa dros dro i gychod camlas.
- Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: sy'n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol.

Datblygiadau Cysylltiedig

- Campws y Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir ar gyfer y gweithwyr adeiladu (Parcio a Theithio);
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi (Canolfan Logisteg);
- y Newidiadau i Briffordd yr A5025;
- Gwaith i greu a gwella cynefinoedd gwlyptir i wneud iawn am unrhyw effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre'r Gof yn y safleoedd canlynol:
 - Tŷ Du;
 - Cors Gwawr;
 - Cae Canol-dydd

2.2.3 Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio wrth ddisgrifio'r ardaloedd daearyddol sy'n ymwneud â Phrosiect DCO Wylfa Newydd a'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu:

- Safle'r Orsaf Bŵer – yr ardaloedd dangosol o dir a môr lle byddai'r rhan fwyaf o'r Orsaf Bŵer barhaol, Gwaith Morol a datblygiadau eraill ar y safle; ac
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd – yr ardaloedd dangosol o dir a môr gan gynnwys Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardaloedd cyfagos a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer, y Gwaith Morol, Campws y Safle a datblygiadau eraill ar y safle (Datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd).

Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu

2.2.4 Mae'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cynnwys y Gwaith Morol a gwaredu'r deunyddiau ar ôl y gwaith Carthu yn y Safle Gwaredu.

Gwaith Galluogi

2.2.5 Mae'r Gwaith Galluogi yn cynnwys y Cynigion ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle a'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025.

2.2.6 Mae Horizon wedi cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer y Gwaith Galluogi o dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i Gyngor Sir Ynys Môn.

2.2.7 Er mwyn cynnal hyblygrwydd yn y broses gydsynio ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae'r Cynigion Paratoi a Chlirio'r Safle hefyd wedi cael eu cynnwys yn y cais am DCO. Nid ydy'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025 yn rhan o'r cais am DCO.

2.3 Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Pwrpas yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

2.3.2 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hefyd yn helpu i adnabod a chynyddu effeithiau cadarnhaol y Prosiect ar iechyd a lles pobl. 'Effeithiau manteisiol a allai fod yn sylweddol' ydy'r enw ar y rhain.

2.3.3 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hefyd yn helpu i adnabod effeithiau negyddol y Prosiect ar iechyd a lles pobl a delio â'r effeithiau hynny. 'Effeithiau niweidiol a allai fod yn sylweddol' y Prosiect ydy'r enw ar y rhain.

2.3.4 Mae hefyd yn edrych ar sut gallai effeithiau'r Prosiect amrywio o un gymuned i'r llall - anghydraddoldebau iechyd ydy'r enw ar y gwahaniaethau hyn.

2.3.5 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn crynhoi'r effeithiau iechyd sylweddol tebygol sydd wedi'u canfod ar gyfer cymunedau penodol yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Prosiect. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau ynghylch dyluniad y Prosiect, gyda golwg ar leihau effeithiau niweidiol y Prosiect ar iechyd a lles a chynyddu'r manteision iechyd i gymunedau lleol, yn ogystal â chymryd camau tuag at leihau anghydraddoldebau iechyd.

- 2.3.6 Mae Adroddiad Cynhwysfawr yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) (math o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sy'n fanylach am ei fod yn seiliedig ar gasgliadau data ac adolygiadau o dystiolaeth) yn egluro sut bydd Horizon yn manteisio ar gyfleoedd i wella iechyd a lles, yn ogystal ag unrhyw gamau bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol posibl y Prosiect ar Iechyd a Lles.

Y Grŵp Llywio

- 2.3.7 Mae Grŵp Llywio ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sydd â chadeirydd annibynnol, ac sy'n cynnwys rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol (gan gynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn) wedi cynorthwyo Horizon i ddatblygu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gwblhau'r asesiad hwn. Mae'r Grŵp Llywio wedi rhoi cyngor ar sut i gynnal yr asesiad a rhoi adborth ar ddrafftiau o'r adroddiadau.
- 2.3.8 Mae Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cynnwys:
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
 - Iechyd Cyhoeddus Cymru;
 - Llywodraeth Cymru;
 - Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru;
 - Cyngor Sir Ynys Môn;
 - Grŵp Cyswllt y Prosiect (yn cynrychioli buddiannau'r gymuned leol); a
 - Horizon.
- 2.3.9 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Public Health England a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear hefyd wedi eu gwahodd i arsylwi gwaith y Grŵp Llywio.


Beth ydy Iechyd a Lles?

- 2.3.10 Mae Iechyd yn cyfeirio at ein lles cymdeithasol, ein lles corfforol a'n lles meddyliol. Mae Iechyd yn gadarnhaol. Mae'n ymwneud â llawer mwy na pheidio â bod yn sâl.
- 2.3.11 Mae Lles yn cyfeirio at allu pob unigolyn i wireddu ei botensial yn ogystal â'i allu i ymdopi â phwysau arferol bywyd, i weithio'n gynhyrchiol, ac i gyfrannu at ei gymuned.

Beth all effeithio ar Iechyd a Lles?

- 2.3.12 Mae amrywiaeth o ffactorau'n effeithio ar Iechyd a Lles.
- 2.3.13 Mae deiet, ysmegu, yfed alcohol ac ymarfer corff i gyd yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles fel unigolion. Ar lefel gymunedol, mae pa mor gyfeillgar a chefnogol ydyn ni tuag at ein gilydd yn gallu effeithio ar Iechyd a Lles. Yn y gymdeithas ehangach, mae argaeledd swyddi a sut rydyn ni'n gwarchod yr amgylchedd yn gallu dylanwadu ar Iechyd. Gall newidiadau yn unrhyw un o'r ffactorau hyn, a ffactorau eraill, wella a gwarchod ein hiechyd a'n lles, neu maen nhw'n gallu bod yn niweidiol. Mae modd teimlo'r effeithiau hyn ar ein hiechyd corfforol a meddyliol.

Ffigur 2-1 Enghreifftiau o ddylanwadau cyffredin ar ein hiechyd a'n lles.



Enghreifftiau o ddylanwadau cyffredin ar ein hiechyd a'n lles

Ffynhonnell: Ar sail diagram Whitehead a Dahlgren fel y'i diwygiwyd gan Barton a Grant

Beth mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ei gynnwys?

2.3.14 Ar yr un adeg â'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Un yn 2014, roedd Horizon hefyd wedi ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Roedd hwn yn esbonio'r materion roedd yr asesiad yn bwriadu canolbwyntio arnyn nhw. Yn dilyn hyn, aseswyd nifer o ffactorau ymwneud ag iechyd a lles, gan gynnwys:

- galw am wasanaethau meddygol ac iechyd;
- cyflogaeth, incwm a datblygu economaidd;
- addysg a hyfforddiant;
- hunaniaeth gymunedol, rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliant;
- gweithgaredd corfforol;
- ffordd o fyw ac ymddygiad;

- ansawdd aer a sŵn;
 - tai;
 - trafnidiaeth;
 - dealltwriaeth y cyhoedd o risg; a
 - cynhyrchu ynni dibynadwy, fforddiadwy a charbon-isel.
- 2.3.15 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn edrych ar chwe phrif gymuned yn seiliedig ar ba mor agos ydyn nhw at Safle'r Oraf Bŵer a gweithiau cysylltiedig eraill, yn bennaf cymunedau sy'n byw:
- ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
 - ger neu wrth ochr y rhwydwaith ffyrdd lleol (A5025, A55, A5 a'r A487);
 - ger Dalar Hir;
 - yng Nghaergybi neu'r ardal gyfagos a ger Parc Cybi;
 - ar Ynys Môn ac yng ngogledd Cymru; ac
 - yng Nghymru a thu hwnt i ffiniau Cymru.
- 2.3.16 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hefyd yn edrych ar effeithiau ein Prosiect ar bedwar grŵp o bobl sy'n sensitif i newid:
- plant a phobl ifanc;
 - pobl hŷn;
 - pobl sydd ag iechyd gwael (corfforol a meddyliol); a
 - pobl sy'n ddifreintiedig, gan gynnwys y rheini ar incwm isel.

Beth sydd ddim yn cael ei gynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd?

- 2.3.17 Fe wnaeth Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hefyd ganfod materion sydd wedi'u hasesu gan adroddiadau eraill (fel y Datganiad Amgylcheddol) na fyddent yn cael eu hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, er enghraifft ansawdd dŵr ac arogleuon.
- 2.3.18 Mae tîm yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi bod yn cadw golwg ar faterion yn ymwneud â dŵr. Daeth i'r casgliad y dylai'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu barhau i fod tu allan i gwmpas yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
- 2.3.19 Mae polisi'r Llywodraeth yn nodi sut caiff penderfyniadau eu gwneud ynghylch ceisiadau i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear. Mae'r Llywodraeth yn datgan y dylid penderfynu ar y cais ar y sail y byddai proses reoleiddio yn lliniaru digon ar amlygiad y gweithwyr, y cyhoedd a'r amgylchedd i ymbelydredd. Ar sail y cyfeiriad clir hwn, nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn asesu effeithiau radiolegol gwirioneddol. Caiff effeithiau radiolegol posibl y Prosiect eu hasesu yn asesiad radiolegol y Datganiad Amgylcheddol (Cyfeirnod 6.2.14 a 6.4.14 yn y Cais), ac mewn dogfennau technegol ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio gorsafoedd pŵer niwclear. O'r dylunio i'r adeiladu a'r gweithredu, mae rheoleiddwyr wedi bod yn craffu ar yr Orsaf Bŵer, ac yn parhau i wneud hynny. Mae'r Orsaf Bŵer wedi cael ei dylunio i osgoi risgiau i'r cyhoedd. Byddai caniatâd i weithredu yn ddibynnol ar drwyddedu a monitro parhaus. Gallai'r

camau hyn leihau risgiau i iechyd a lles. Mae'r risgiau sy'n weddill, neu'r rhai gweddilliol, naill ai:

- yn isel o ran tebygolrwydd (megis digwyddiadau heb eu trefnu); neu
- yn isel o ran maint (megis allyriadau rheoleiddiedig).

2.3.20 Nid oes disgwyl i seilwaith trydanol Ardal Datblygu Wylfa Newydd (ee is-orsaf drydanol ar Gampws y Safle) effeithio ar gymunedau lleol. Mae'r National Grid yn ystyried cysylltiad y llinell bŵer i'r Orsaf Bŵer yn ei waith ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Nid yw'r potensial ar gyfer effeithiau meysydd electromagnetig o ganlyniad i linellau pŵer o'r fath yn rhan o'n Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd.

2.4 Effeithiau iechyd, mesurau lliniaru a gwella

Effeithiau'r Prosiect ar Iechyd a Lles

2.4.2 Fel rhan o'r asesiadau, mae Horizon wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i effeithiau sylweddol tebygol y Prosiect ar Iechyd a Lles.

2.4.3 Mae mesurau i helpu i leihau effeithiau niweidiol (lliniaru), yn ogystal â'r rhai i wella effeithiau manteisiol, yn cael eu trafod mewn dogfennau gwahanol ar draws y cais. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi ystyried yr holl fesurau hyn ac yn crynhoi'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Prosiect yn sgil y gwaith ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae Map Lliniaru (Cyfeirnod y Cais: 8.14) wedi cael ei gynnwys yn y cais fel bod modd i'r darllenwyr weld yr holl fesurau a dod o hyd iddynt mewn gwahanol ddogfennau.

Manteision

Cyflogaeth

2.4.4 Mae gweithio'n gwella iechyd meddyliol a chorfforol.

Adeiladu

2.4.5 Yn ystod ei gyfnod prysuraf, byddai'r Prosiect yn creu hyd at 9,000 o swyddi ar Ynys Môn a bydd yn cyflogi o leiaf 2,000 o bobl leol. Bydd y gweithgareddau adeiladu, a dyfodiad a phresenoldeb y gweithwyr adeiladu yn creu marchnadoedd ychwanegol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ar Ynys Môn.

Gweithredu

2.4.6 Byddai cyfnod gweithredu 60 mlynedd Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn darparu manteision tymor hir yn sgil yr 850 o swyddi parhaol y mae disgwyl iddynt gael eu creu. Mae disgwyl i'r rhain fod yn swyddi o safon uchel, sy'n cynnig cyfleoedd da i ddatblygu gyrfa a chyflogau da. Mae'r cyfleoedd iechyd lleol yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i greu swyddi i drigolion presennol.

2.4.7 Bydd cyfnodau segur hefyd pan fydd pob adweithydd yn cael ei gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac ail-lenwi tanwydd. Bydd hyn yn gofyn am weithlu o tua 1,000 o weithwyr ar gyfer cyfnodau tymor byr yn ystod y cyfnod gweithredu.

- 2.4.8 Bydd y Prosiect yn cyflogi cannoedd o bobl, gan gynnwys cynifer o bobl leol â phosibl, a bydd yn dod â manteision economaidd i Ynys Môn ac i ogledd Cymru.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.9 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â chyflogaeth yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth lleol yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.

Buddsoddi

- 2.4.10 Mae prosiect o'r maint hwn yn dod â buddsoddiad i'r ardal leol, i'r rhanbarth ac i'r wlad gan greu swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol a chyfleoedd economaidd. Mae hyn yn cynnwys manteision darparu nwyddau a gwasanaethau i weithwyr adeiladu.
- 2.4.11 Roedd Horizon wedi cynnal arolwg cymunedol er mwyn gofyn am farn pobl ar y Prosiect. Fe wnaeth cwmni sy'n ymchwilio i farchnadoedd siarad dros y ffôn ag ychydig dros 500 o bobl ledled Ynys Môn. Yn yr arolwg hwn, roedd y rhan fwyaf o bobl (83%) yn cytuno y byddai'r Orsaf Bŵer yn darparu cyfleoedd i bobl leol. Mae lefel uchel o ddisgwyliad ymhlith ymatebwyr y bydd y Prosiect yn dod â manteision economaidd lleol. Mae'r disgwyliad hwn yn sail i'r gefnogaeth a'r ewyllys da sy'n gysylltiedig â'r Prosiect ar Ynys Môn ac yn dangos y gofyniad sydd wrth galon y prosesau dylunio, lliniaru a gwella er mwyn darparu'r cyfleoedd hyn.
- 2.4.12 Byddai'r Prosiect o fudd i bobl sy'n gweithio, y rhai sy'n dibynnu arnyn nhw a'r economi yn ehangach. Mae'r buddsoddiad hwn hefyd yn gyfle i wella iechyd a lles pobl sy'n byw ar Ynys Môn ac yn yr ardal ehangach yng ngogledd Cymru, er enghraifft drwy leihau lefelau amddifadedd.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.13 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â buddsoddi yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth lleol yn ystod y cyfnod gweithredu.

Swyddi, sgiliau ac addysg

Adeiladu a gweithredu

- 2.4.14 Fel sy'n cael ei egluro yn y Strategaeth Swyddi a Sgiliau, mae Horizon yn bwriadu ymgysylltu'n frwd â phobl leol i gyflawni llawer o'r swyddi y mae disgwyl y byddant ar gael fel rhan o'r Prosiect. Byddai hyn yn creu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer gweithwyr lleol, pobl ifanc, y rheini sy'n gadael ysgol a graddedigion yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu tangyflogi ar hyn o bryd. Byddai cefnogi addysg a hyfforddiant yn gwneud llawer o wahaniaeth i iechyd a lles tymor hir cymunedau Ynys Môn, ee drwy gael mwy o sgiliau a gwaith sy'n talu cyflogau uwch. Bydd hyn yn golygu bod modd gwario mwy ar nwyddau a gwasanaethau sy'n dda ar gyfer iechyd.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.15 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â swyddi, sgiliau ac addysg yn cynnwys y canlynol:

- hyrwyddo addysg a recriwtio mewn proffesiynau sy'n berthnasol i'r Prosiect;
- cefnogi pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) a gwelliannau cysylltiedig i seilwaith ysgolion uwchradd;
- hybu addysg, uwchsgilio a hyfforddiant lleol yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu; a
- rhoi cefnogaeth i bobl leol o gefndiroedd difreintiedig.

Yr amgylchedd lleol

Adeiladu a gweithredu

2.4.16 Byddai'r Prosiect yn dod â gwelliannau i'r amgylchedd lleol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Er enghraifft, byddai gwaith priffyrdd arfaethedig Horizon yn uwchraddio rhannau o'r A5025 i wneud y ffordd yn fwy diogel i bawb deithio arni. Byddai'r gwelliannau i'r briffordd hefyd yn lleihau sŵn traffig a llygredd aer yng nghymunedau'r Fali, Llanfachraeth, Llanfaethlu a Llanrhyddlad (yng Nghefn Coch). Mewn rhai lleoliadau, byddai'r newidiadau i Briffordd yr A5025 yn dod â'r traffig yn agosach at dai, er enghraifft ym Mharc Llynnon, Llanfachraeth. Mewn achosion o'r fath, efallai bydd rhywfaint o ostyngiad bach parhaus yn ansawdd yr aer a rhywfaint o aflonyddwch oherwydd sŵn sy'n ymwneud â thraffig.

Ymrwymadau o ran lliniaru

2.4.17 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â'r amgylchedd lleol yn cynnwys y canlynol:

- cynlluniau ar gyfer monitro iechyd anadlol; a
- gwybodaeth am ansawdd aer a lefelau sŵn ar gyfer preswylwyr.

Yr Orsaf Bŵer

Gweithredu

2.4.18 Pan fydd yr Orsaf Bŵer yn weithredol, byddai'n helpu i ddod â chyflenwad sefydlog o drydan carbon isel i Gymru ac i'r DU. Mae gan hyn lawer o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar iechyd a lles, er enghraifft, ar y lefel fwyaf sylfaenol, mae trydan yn galluogi pobl i wresogi a goleuo eu cartrefi. Mae cyflenwad sefydlog o bŵer yn helpu i weithredu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, cynnal swyddi a gweithgarwch economaidd a defnyddio technoleg. Gall cynhyrchu ynni carbon isel helpu i leihau newid yn yr hinsawdd a'i lu o effeithiau niweidiol ar iechyd a lles corfforol a meddyliol.

2.4.19 Yn yr arolwg cymunedol, dywedodd y rhan fwyaf o bobl (71%) eu bod o blaid cael gorsaf niwclear ar Ynys Môn. Yn unol â'r disgwyl, mae cymunedau sy'n byw wrth ymyl Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn gyfarwydd â byw wrth ymyl cyfleuster niwclear. Mae astudiaethau academaidd mewn ardaloedd eraill yn awgrymu bod gan gymunedau o'r fath ddealltwriaeth fanwl o beryglon a risgiau cynhyrchu trydan, a'u bod yn tueddu i'w hystyried nhw fel rhywbeth cyffredin. Mae'r rhan fwyaf o bobl (62%) yn cytuno bod gorsafydd niwclear yn ddiogel

ac yn ddibynadwy, ond mae 16% yn anghytuno ac nid oes gan 21% farn bendant. Hefyd, dywedodd y rhan fwyaf o bobl (68%) eu bod yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.20 Gan ei fod yn un o fanteision cynhenid y Prosiect, nid oes angen mesurau lliniaru na gwelliannau ychwanegol yng nghyswllt cynhyrchu trydan.
- 2.4.21 Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â diogelwch adeiladu a gweithredu.

Manteision tymor hir

Gweithredu

- 2.4.22 Mae disgwyl i'r Prosiect arwain at fanteision ffyrdd gwell. Bydd Horizon hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i gryfhau hunaniaeth gymunedol a rhwydweithiau. Hefyd, mae Horizon yn trafod darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd â darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau brys. Mae Horizon yn bwriadu sicrhau bod gwelliannau'n cael eu dylunio i ddiwallu anghenion lleol ac anghenion y gweithwyr, ac yn gadael lefel briodol o ofal y tu hwnt i'r cyfnod adeiladu. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.2) yn nodi y byddai hyn yn cynnwys mynediad priodol i siaradwyr Cymraeg allu cael gwasanaethau iechyd yn eu hiaith gyntaf.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.23 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â manteision tymor hir yn helpu Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu eu Strategaeth Gweithlu eu hunain.

Effeithiau niweidiol

Ansawdd aer a sŵn

Adeiladu

- 2.4.24 Yn ystod gweithgareddau adeiladu, efallai y bydd y bobl sy'n byw agosaf at Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r rhwydwaith ffyrdd lleol yn gweld newid mewn ansawdd aer, er enghraifft oherwydd llwch sy'n cael ei greu gan weithgareddau adeiladu neu allyriadau o gerbydau neu beiriannau adeiladu.
- 2.4.25 Hefyd, gallai trigolion mewn eiddo sydd yn nes at Ardal Datblygu Wylfa Newydd a'r rhwydwaith ffyrdd lleol (A5025, A55, A5 a'r A487) glywed effeithiau sŵn adeiladu, a allai amharu ar gwsg neu fod yn ddiflas.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.26 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud ag ansawdd aer a sŵn yn cynnwys y canlynol:
- cynlluniau ar gyfer monitro iechyd anadlol ac aflonyddwch cwsg;
 - gwybodaeth am ansawdd aer a lefelau sŵn ar gyfer preswylwyr; a

- sianel gyfathrebu a chefnogaeth i'r rhai sy'n wynebu mwy o allyriadau ac aflonyddwch.

Tai

Adeiladu

- 2.4.27 Efallai y bydd rhai landlordiaid yn cynyddu rhenti yn uwch na'r lefelau presennol yn sgil dyfodiad y gweithwyr adeiladu. Gallai cynnydd o'r fath mewn rhent effeithio ar nifer fechan o bobl mewn eiddo rhent ar draws Ynys Môn (gan gynnwys rhai ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac yng Nghaergybi neu'r cyffiniau). Gallai hyn arwain at rai pobl yn symud i lety sy'n bellach oddi wrth swyddi, ysgolion a ffrindiau presennol.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.28 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â thai yn cynnwys y canlynol:
- datblygu polisi sensitif ar gyfer gosod tai.
 - cynlluniau ar gyfer monitro pwysau ar y farchnad dai;
 - cofrestru'r holl weithwyr adeiladu â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr.

Trafnidiaeth

Adeiladu

- 2.4.29 Gallai rhagor o gerbydau ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, yn enwedig ar yr A5025 sydd â llai o gapasiti presennol, gynyddu'r perygl o ddamweiniau yn gyffredinol. Byddai Newidiadau i Briffordd yr A5025, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, y Ganolfan Logisteg, y cyfleuster Parcio a Theithio a'r gwasanaethau bysiau i weithwyr Horizon i gyd yn cyfrannu at leihau effeithiau'r traffig sy'n ymwneud â'r Prosiect. Er gwaethaf hyn, gallai tagfeydd effeithio ar amseroedd siwrneiau sy'n ymwneud â gofal iechyd ar draws Ynys Môn ac i'r tir mawr.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.30 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn cynnwys y canlynol:
- hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd, rhannu ceir a chynllunio teithiau.
 - cefnogi mynediad ar droed o Dregele ar gyfer aliniad newydd arfaethedig Llwybr Arfordir Cymru;
 - cynlluniau ar gyfer monitro manau problemus o ran damweiniau.

Athreuliad llafur

Adeiladu

- 2.4.31 Bydd y gweithlu hwn yn tyfu ac yna'n lleihau, a bydd gan hyn oblygiadau i gyflogwyr ar Ynys Môn. Yn y bumed flynedd, sef cyfnod prysuraf y Prosiect, bydd angen 690 o swyddogion diogelwch, gwasanaethau safle a staff cleryddol, a hynny ar y safle ac oddi ar y safle. Gallai hyn greu cystadleuaeth

ar gyfer rhai cyflogwyr sector cyhoeddus lleol (ee gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol) a allai, yn ei dro, roi pwysau ar wasanaethau lleol.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

- 2.4.32 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud ag athreuliad llafur yn cynnwys helpu Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu eu Strategaethau Gweithlu eu hunain, a fyddai'n golygu bod modd cynllunio ar gyfer twf y gweithlu adeiladu a'i waddol.

Y Gweithlu

Adeiladu

- 2.4.33 Yn ystod ei gyfnod prysuraf, byddai'r Prosiect yn creu tua 9,000 o swyddi ar Ynys Môn a bydd yn cyflogi o leiaf 2,000 o bobl leol sydd eisoes yn byw ar draws Ynys Môn ac mewn rhannau o'r tir mawr, ac a fyddai'n teithio i'r gwaith bob dydd. Golyga hyn y byddai angen tai ar tua 7,000 o bobl yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf. Mae Strategaeth Llety'r Gweithwyr Horizon yn nodi cynigion ar gyfer darparu llety iddynt. Yn gryno, bydd:
- Campws Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd a fyddai'n darparu llety dros dro, yn ystod y cyfnod prysuraf, hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu (a chyfleusterau ategol o ddydd i ddydd); a
 - tua 3,000 o weithwyr adeiladu a fyddai'n defnyddio llety sy'n bodoli eisoes ar draws Ynys Môn ac mewn rhannau o'r tir mawr (ee rhentu preifat neu westai, gan roi budd i'r economi leol).
- 2.4.34 Mae'n debygol y byddai mewnlifiad y gweithwyr dros dro yn cael effaith ar gymunedau lleol. Yn yr arolwg cymunedol (a gynhaliwyd cyn y cynigion ar gyfer Campws y Safle, ond pan roedd Llety Gweithwyr Dros Dro yn cael ei gynnig yn yr ardal) dywedodd y rhan fwyaf o bobl (81%) na fyddai eu cartref yn golygu llai iddynt pe bai Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn cael ei hadeiladu. Er hynny, mae Horizon yn cydnabod y gall fod newidiadau i rwydweithiau cymdeithasol a diwylliant oherwydd y gymysgedd newydd o bobl, yn ogystal â dylanwadau negyddol ar ba mor iach a diogel yw cymunedau (ee defnydd o alcohol a thybaco neu ymddygiad gwrthgymdeithasol). Oherwydd natur eithaf ynysig a hunangynhaliol Campws y Safle, mae disgwyl iddo leihau'r potensial ar gyfer effeithiau niweidiol yn sylweddol. Ar ben hyn, byddai gweithwyr sy'n defnyddio llety presennol ar wasgar ar draws Ynys Môn a rhannau o'r tir mawr ac felly nid yw'n debygol y byddant yn ormod o faich ar gymunedau unigol. Serch hynny, bydd Horizon yn gweithio'n agos gyda chymunedau i osgoi neu leihau, pan fo hynny'n bosibl, gweithgareddau a allai gael effaith niweidiol. Caiff y mater hwn ei drafod yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg hefyd, yng nghyswllt y newid posibl o ran y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg mewn cymunedau.
- 2.4.35 Mae disgwyl y bydd y gweithlu yn broffesiynol, yn gweithio'n galed ac yn parchu'r gyfraith. Serch hynny, mae gan Horizon bolisiau ar gyfer ymddygiad y gweithlu, Strategaeth Rheoli'r Gweithlu a Strategaeth Llety Gweithwyr a fydd yn darparu safon glir i bob gweithiwr. Bydd Horizon yn disgwyl i gontractwyr roi trefniadau tebyg ar waith, a gorfodi safon gyfatebol o ymddygiad.

Ymrwymïadau o ran lliniaru

2.4.36 Bydd mesurau lliniaru sy'n ymwneud â'r gweithlu yn cynnwys y canlynol:

- darpariaeth gofal iechyd briodol neu gyfraniadau ar gyfer y gweithlu adeiladu;
- gwasanaethau hylendid ac iechyd galwedigaethol priodol ar gyfer y gweithlu adeiladu;
- darpariaeth briodol o wasanaethau brys ar gyfer y gweithlu adeiladu;
- cynlluniau ar gyfer monitro sut mae gwasanaethau gofal iechyd cymunedol yn cael eu defnyddio gan y gweithlu adeiladu;
- cofrestru'r holl weithwyr adeiladu â gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau meddygol ar y safle;
- rheoli materion sy'n ymwneud ag ymddygiad unrhyw weithiwr, hybu cydlyniant cymunedol a chefnogi mewnfudwyr i ddod yn rhan o'r cymunedau cynhaliol;
- cynlluniau ar gyfer monitro ymddygiad a ffordd o fyw cymunedau;
- hybu hylendid ac iechyd galwedigaethol ac ymddygiad da ymysg y gweithwyr;
- hyfforddiant ar gysylltiadau cymunedol, iaith, diwylliant, iechyd, diogelwch a materion amgylcheddol;
- byddai'r holl bersonél a chontractwyr yn cael copi o'r Cod Ymddygiad, a byddai disgwyl iddynt gydymffurfio ag ef;
- cynlluniau ar gyfer monitro diogelwch mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed; a
- diogelu lles gweithwyr Horizon a'i gadwyn gyflenwi ac, mewn perthynas â gweithgareddau ei weithlu adeiladu, y cyhoedd.

Hunaniaeth Gymunedol

2.4.37 Byddai'r gwaith adeiladu sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn newid golygfeydd a thirwedd yr ardal leol, yn ogystal â chyfansoddiad cymunedol yr ardal, a allai yn ei dro effeithio ar hunaniaeth y gymuned, rhwydweithiau cymdeithasol, iaith a diwylliant. Mae hyn yn fwyaf tebygol wrth ystyried Ardal Datblygu Wylfa Newydd (gan gynnwys Campws y Safle).

2.4.38 Mae rhwydweithiau cymdeithasol yn bwysig. Maen nhw'n bodoli yn y cysylltiadau rhwng pobl, yn y llefydd y mae pobl yn eu hystyried yn gartrefi, ac yn yr amrediad o weithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn cymunedau, o gyfarfodydd cynllunio lleol a ffeiriau haf i ddathlu hanes lleol a thraddodiadau diwylliannol. Gall newidiadau i'r dirwedd, neu i lwybrau troed, ac unrhyw bethau eraill sy'n amharu ar y ffordd bresennol o wneud pethau effeithio ar y rhwydweithiau cymdeithasol hyn. Gall hyn newid ymdeimlad pobl o'u cartref, a hynny mewn ffyrdd dwfn ac anrhagweladwy weithiau. Yn yr arolwg cymunedol, daeth yn amlwg fod pobl Ynys Môn yn gwneud yn dda iawn gyda'i gilydd, bod ganddynt rwydweithiau cymdeithasol cryf a'u bod yn gwerthfawrogi'r ffordd Gymreig o fyw. Mae Horizon yn cydnabod bod

rhwydweithiau cymdeithasol yn bwysig iawn i gefnogi aelodau ieuengaf a hynaf yn y gymdeithas, ac mae Horizon yn parhau i weithio ar ffyrdd o ddathlu diwylliant lleol, cefnogi hunaniaeth leol (gan gynnwys hunaniaeth sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg) a chynnal rhwydweithiau cymunedol.

Ymrwymadau o ran lliniaru

- 2.4.39 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â hunaniaeth yn cynnwys cynlluniau i wella a dathlu hunaniaeth leol.

Cerdded a beicio

- 2.4.40 Mae cerdded, beicio a gweithgareddau egnïol eraill yn bwysig ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol. Y cymunedau sydd agosaf at Ardal Datblygu Wylfa Newydd sy'n debyg o weld y newid mwyaf oherwydd byddai'r rhwydwaith o lwybrau cerdded a llwybrau beicio sy'n cael eu defnyddio ganddyn nhw ar gyfer gweithgareddau corfforol yn cael eu cau neu eu dargyfeirio gan leihau'r apêl i gerdded neu feicio oherwydd aflonyddwch, canfyddiad o ddiffyg diogelwch a llai o dawelwch.

Ymrwymadau o ran lliniaru

- 2.4.41 Mae mesurau lliniaru sy'n ymwneud â cherdded a beicio yn cynnwys y canlynol:
- hyrwyddo cyfleusterau hamdden, cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus lleol;
 - cefnogi a gwella'r mynediad at deithiau llesol i bobl sy'n defnyddio'r Trywydd Copr yn Nhregele.

Atebolrwydd am fesurau lliniaru

- 2.4.42 Bydd Horizon yn sefydlu ac yn cadeirio Grŵp Monitro Iechyd a Lles a fydd yn cynnwys aelodau o'r gwasanaethau iechyd ac argyfwng i fonitro'r broses o roi strategaeth lliniaru'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar waith a rhoi cyngor ynglŷn â'i darparu. Pan fo hynny'n briodol, bydd Horizon yn galluogi dadansoddi data iechyd cyhoeddus a gesglir yn rheolaidd, sy'n berthnasol i'r Prosiect. Byddai hyn yn dylanwadu ar drafodaethau'r Grŵp Monitro Iechyd a Lles. Os bydd hynny'n briodol, bydd y Grŵp yn trafod yr angen am fesurau lliniaru ychwanegol neu ymchwiliad dilynol.
- 2.4.43 Bydd Horizon yn penodi Swyddog Cynnwys y Gymuned dwyieithog ac yn rhoi cynifer o fesurau lliniaru â phosibl ar waith yn ystod cyfnod adeiladu a gweithredu'r Prosiect. Bydd Swyddogion Cynnwys y Gymuned yn rhyngwyneb allweddol rhwng y gymuned leol, rhanddeiliaid allweddol a rheolwyr Horizon. Bydd y Swyddog Cynnwys y Gymuned yn rhan o'r broses o roi mesurau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar waith, yn ogystal â mesurau lliniaru perthnasol yng nghyswllt y Datganiad Amgylcheddol, yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (Cyfeirnod y Cais: 8.21) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Cyfeirnod y Cais: 8.22) lliniaru. Bydd y cyfrifoldebau'n cynnwys rhoi mesurau lliniaru ar waith yn ystod y camau adeiladu a gweithredu.

Effeithiau Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a Datblygiadau Cysylltiedig ar Iechyd a Lles

- 2.4.44 Roedd Horizon wedi ystyried y ffyrdd y gallai Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig effeithio ar iechyd a lles. Cafodd hyn ei wneud drwy gynnal ymarferion ar wahân yng nghyswllt yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer pob un. Oherwydd bod Campws y Safle yn berthnasol i drawstoriad o bynciau sy'n ymwneud ag iechyd a lles, mae'n eithriad i'r dull hwn ac fe gafodd ei asesu yn y gwaith cynhwysfawr ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel un o gydrannau'r gweithgareddau yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd (Cyfeirnod y Cais: 8.19).
- 2.4.45 Fe wnaeth Horizon ddefnyddio cwestiynau Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru i helpu i benderfynu a ddylid cynnal asesiad neu beidio. Mae hyn yn cael ei alw'n sgrinio. Drwy ystyried effeithiau iechyd posibl yn gynnar, yn unol â'r arferion gorau, roedd modd cael gwared ag effeithiau niweidiol a allai fod yn sylweddol neu eu lleihau drwy fesurau lliniaru'r Prosiect cyfan.
- 2.4.46 Felly, daeth y broses sgrinio ar gyfer pob Asesiad cyflym o'r Effaith ar Iechyd i'r casgliad na fyddai Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer na'r Datblygiadau Cysylltiedig yn cael effeithiau sylweddol ar iechyd y byddai angen eu hasesu ymhellach. Mae rhai o'r effeithiau ar iechyd sy'n deillio o Gyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer a'r Datblygiadau Cysylltiedig yn ymwneud â'r effeithiau iechyd sy'n deillio o'r Prosiect yn ehangach. Felly, maen nhw wedi cael eu hystyried, yn ôl y galw, yn adrannau'r prif bynciau yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19).

Effeithiau cyffredinol ar Iechyd a Lles

- 2.4.47 Mae tabl 2-1 a thabl 2-2 yn dangos amrediad o effeithiau manteisiol a niweidiol ar gyfer y gwahanol ardaloedd daearyddol a'r grwpiau poblogaeth agored i niwed y gallai'r Prosiect effeithio arnynt.
- 2.4.48 I gael syniad o effeithiau cyffredinol neu gronnus y Prosiect, edrychodd yr asesiad ar draws y Prosiect cyfan ac ar brosiectau eraill sydd wedi cael eu cynnal, neu y gellir yn rhesymol eu rhagweld. Ar sail hyn, gan ystyried yr effeithiau gwahaniaethol ar draws grwpiau agored i niwed a lefelau daearyddol, credir y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn cael effaith fanteisiol ar iechyd y boblogaeth.
- 2.4.49 Disgwylir gweld effeithiau manteisiol mân i fawr yn bennaf mewn lefelau daearyddol lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, a disgwylir gweld llawer o fanteision o'r fath yn ymledu i gymunedau sydd yn benodol i safle. Disgwylir y bydd effeithiau niweidiol bach i ganolig i'w gweld yn bennaf mewn rhai cymunedau sydd yn benodol i safle, ond mewn rhai achosion byddan nhw hefyd i'w gweld ar lefel leol a rhanbarthol. Byddai'r rhan fwyaf o'r effeithiau niweidiol yn codi yn ystod y cam adeiladu. Byddai llawer o'r effeithiau manteisiol yn dechrau yn ystod y cam adeiladu, a byddai'r rhan fwyaf yn parhau i'r cam gweithredu.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

Tabl 2-1 Crynodeb o'r effeithiau iechyd a lles ar gyfer grwpiau poblogaeth daearyddol

	Grwpiau poblogaeth daearyddol					
	Penodol i safle	Penodol i safle	Penodol i safle	Penodol i safle	Lleol a rhanbarthol	Cenedlaethol a rhyngwladol
	Cymunedau sy'n byw wrth ymyl Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cymunedau sy'n byw wrth ymyl neu ger y rhwydwaith ffyrdd lleol (yr A5025, yr A55, yr A5 a'r A487)	Cymunedau sy'n byw ger Dalar Hir	Cymunedau sy'n byw yng Nghaerdybi neu'r cyffiniau ac wrth ymyl Parc Cybi	Cymunedau sy'n byw ar Ynys Môn ac yng ngogledd Cymru	Cymunedau sy'n byw yng Nghymru a thu hwnt i ffiniau Cymru
Disgrifiad o'r effeithiau iechyd a lles	<p>Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol:</p> <p><u>Adeiladu</u> (effeithiau tymor canolig a fydd yn para blynyddoedd)</p> <ul style="list-style-type: none"> ansawdd aer, llwch ac allyriadau sŵn ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd (gan gynnwys lefelau uchel o allyriadau yn y tymor byr a'r tymor byr iawn); gweithwyr adeiladu'n defnyddio gwasanaethau cymunedol y GIG gan gyfrannu at y pwysau ar gapasiti'r GIG wrth ymyl Cemaes; presenoldeb gweithwyr adeiladu wrth ymyl Cemaes pan nad ydyn nhw'n gweithio, a fydd yn cyfrannu at greu cymunedau llai diogel a llai iach (ee newid mewn defnydd o alcohol ac ysmegu a/neu newid mewn gweithgareddau rhywiol), neu'n cyfrannu at newidiadau mewn rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliant; newidiadau diwylliannol, economaidd a gweledol i hunaniaeth a chyd-destun lleol (gan gynnwys goleuadau yn ystod y nos); newidiadau o ran gweithgareddau corfforol oherwydd effeithiau niweidiol a dargyfeiriadau (ee llwybrau cerdded a beicio) ac effeithiau manteisiol cyfleoedd eraill a ddarperir; <p><u>Gweithredu</u> (effeithiau tymor hir a fydd yn para degawdau)</p> <ul style="list-style-type: none"> iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â dealltwriaeth o risg, sut mae risgiau a manteision Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn cael eu deall, a'r 	<p>Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol:</p> <p><u>Adeiladu</u> (effeithiau tymor canolig a fydd yn para blynyddoedd)</p> <ul style="list-style-type: none"> gostyngiad o ran diogelwch ar y ffyrdd, yn ogystal â rhagor o allyriadau sŵn ac ansawdd aer o gerbydau'r Prosiect ar y rhwydwaith ffyrdd lleol; manteision diogelwch y ffyrdd o'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025, yn ogystal â defnyddio'r Cyfleuster Parcio a Theithio a'r Ganolfan Logisteg i leihau symudiadau cerbydau ychwanegol ar yr A5025; manteision yn sgil y Gwelliannau i Briffordd yr A5025 mewn cymunedau sy'n cael eu hosgoi ar yr A5025, a hynny o ganlyniad i lai o sŵn traffig, gwell diogelwch ar y ffyrdd a hybu rhwydweithiau cymdeithasol cryf a gwell cymorth cymdeithasol; a <p><u>Gweithredu</u> (effeithiau tymor hir a fydd yn para degawdau)</p> <ul style="list-style-type: none"> Manteision ehangach yn sgil Gwelliannau i Briffordd yr A5025, gydag amseroedd siwrneiau gwell i'r gymuned wledig 	<p>Does dim disgwyl gweld effeithiau sylweddol ar iechyd y boblogaeth yn y lleoliad hwn.</p>	<p>Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol:</p> <p><u>Adeiladu</u> (effeithiau tymor canolig a fydd yn para blynyddoedd)</p> <ul style="list-style-type: none"> gweithwyr adeiladu a gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yn defnyddio gwasanaethau cymunedol y GIG gan gyfrannu at y pwysau ar gapasiti'r GIG wrth ymyl Caerdybi; presenoldeb gweithwyr adeiladu a gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yng Nghaerdybi pan na fyddan nhw'n gweithio, a hynny'n cyfrannu at greu cymunedau llai iach neu lai diogel, neu'n cyfrannu at newidiadau mewn rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliant; ac effeithiau economaidd manteisiol o ganlyniad i weithwyr yn gwario arian yn lleol yng Nghaerdybi. 	<p>Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol:</p> <p><u>Adeiladu</u> (effeithiau tymor canolig a fydd yn para blynyddoedd)</p> <ul style="list-style-type: none"> gostyngiad o ran diogelwch ar y ffyrdd ac amseroedd siwrneiau hirach yng nghyswllt iechyd, a hynny o ganlyniad i gerbydau sy'n ymwneud â'r Prosiect ar y rhwydwaith ffyrdd lleol; gweithwyr adeiladu'n defnyddio gwasanaethau cymunedol y GIG gan gyfrannu at y pwysau ar gapasiti'r GIG (fel arall, gellid sicrhau manteision drwy alinio â'r GIG i feithrin capasiti lleol); presenoldeb y gweithwyr adeiladu yn cyfrannu at y gystadleuaeth am dai, afiechydon trosglwyddadwy, cymunedau llai iach neu lai diogel a newidiadau i rwydweithiau cymdeithasol a diwylliant; effeithiau manteisiol yn sgil helpu pobl leol i wella eu sgiliau a llenwi swyddi yn ystod y cam adeiladu, yn ogystal ag effeithiau niweidiol posibl oherwydd athreuliad llafur mewn gwasanaethau cymunedol ym maes gofal iechyd; ac effeithiau economaidd manteisiol oherwydd bod gweithwyr adeiladu yn gwario arian yn lleol. <p><u>Gweithredu</u> (effeithiau tymor hir a fydd yn para degawdau)</p> <ul style="list-style-type: none"> Effeithiau manteisiol yn sgil rhoi cymorth i bobl i wella eu sgiliau a chael swyddi yn ystod y cam gweithredu; ac 	<p>Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol:</p> <p><u>Gweithredu</u> (effeithiau tymor hir a fydd yn para degawdau)</p> <ul style="list-style-type: none"> iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â dealltwriaeth o risg, sut mae risgiau a manteision Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn cael eu deall, a'r disgwyliadau sydd gan bobl ynglŷn â Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd; y fantais iechyd genedlaethol yn sgil cyflenwad trydan fforddiadwy a di-dor; a mantais iechyd fyd-eang yn sgil lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.

	Grwpiau poblogaeth daeryddol					
	Penodol i safle	Penodol i safle	Penodol i safle	Penodol i safle	Lleol a rhanbarthol	Cenedlaethol a rhyngwladol
	Cymunedau sy'n byw wrth ymyl Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Cymunedau sy'n byw wrth ymyl neu ger y rhwydwaith ffyrdd lleol (yr A5025, yr A55, yr A5 a'r A487)	Cymunedau sy'n byw ger Dalar Hir	Cymunedau sy'n byw yng Nghaergybi neu'r cyffiniau ac wrth ymyl Parc Cybi	Cymunedau sy'n byw ar Ynys Môn ac yng ngogledd Cymru	Cymunedau sy'n byw yng Nghymru a thu hwnt i ffiniau Cymru
	disgwyliadau sydd gan bobl ynglŷn â Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd.	wrth gael gafael ar ofal iechyd, ysgolion a gwasanaethau mewn aneddiadau mwy o faint.			<ul style="list-style-type: none"> effeithiau economaidd manteisiol yn sgil rhwydwaith priffyrdd gwell yn dilyn y Gwelliannau i Briffordd yr A5025. 	
Arwyddocâd effeithiau iechyd a lles	O ran y boblogaeth gyffredinol (y rhan fwyaf o bobl) sy'n byw wrth ymyl Ardal Datblygu Wylfa Newydd, ystyrir bod yr effaith weddilliol gyffredinol ar iechyd y boblogaeth yn effaith niweidiol fach . O ran grwpiau agored i niwed perthnasol, gallai'r cyfuniad o fod yn agos at newid amgylcheddol a chymdeithasol, a bod yn fwy sensitif i newidiadau o'r fath, arwain at effaith niweidiol ganolig (mae hyn yn ystyried yr effeithiau a ddisgrifir yn y colofnau ar gyfer yr effeithiau lleol (Ynys Môn), rhanbarthol (ogledd Cymru) a chenedlaethol (Cymru) a fyddai hefyd yn cael eu hwynebu yn y lleoliad hwn sy'n benodol i safle).	O ran y boblogaeth gyffredinol (y rhan fwyaf o bobl) sydd wrth ymyl y rhwydwaith ffyrdd lleol, ystyrir bod effaith weddilliol gyffredinol y Prosiect ar iechyd y boblogaeth yn effaith fach iawn . O ran grwpiau agored i niwed perthnasol, gallai'r cyfuniad o fod yn agos at ffyrdd ynghyd â bod yn fwy sensitif i effeithiau traffig arwain at effaith niweidiol fach (mae hyn yn ystyried effeithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a fyddai hefyd yn codi yn y lleoliad penodol i safle hwn).	Nid oes disgwyl gweld dylanwadau sylweddol tebygol ar iechyd y boblogaeth sy'n benodol i safle, felly mae'r effaith weddilliol gyffredinol ar iechyd y boblogaeth yn ymwneud ag effeithiau lleol a rhanbarthol sydd wedi'u dosbarthu. Ystyrir mai bach iawn fyddai'r effaith ar y boblogaeth gyffredinol ac y byddai effaith fanteisiol fach o ran grwpiau agored i niwed perthnasol.	Ar gyfer y boblogaeth gyffredinol (y rhan fwyaf o bobl) yng Nghaergybi neu'r cyffiniau ac wrth ymyl Parc Cybi, ystyrir mai bach iawn fydd effaith weddilliol gyffredinol y Prosiect ar iechyd y boblogaeth. O ran grwpiau agored i niwed perthnasol (er gwaethaf lefelau uchel o effeithiau niweidiol tymor byr yn ystod y cyfnodau adeiladu prysuraf), gallai'r cyfuniad o gyfleoedd economaidd oherwydd bod gweithwyr yn gwario arian yn lleol ynghyd â lefelau uchel o amddifadedd presennol yng Nghaergybi a'r cyffiniau arwain at effaith fanteisiol fach (mae hyn yn ystyried effeithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a fyddai hefyd yn codi yn y lleoliad hwn sy'n benodol i safle).	O ran y boblogaeth gyffredinol (y rhan fwyaf o bobl) yn Ynys Môn a gogledd Cymru, ystyrir mai effaith fanteisiol fach fydd effaith weddilliol gyffredinol y Prosiect ar iechyd y boblogaeth. O ran grwpiau agored i niwed perthnasol (er gwaethaf lefelau uchel o effeithiau niweidiol tymor byr yn ystod y cyfnodau adeiladu prysuraf), gallai'r cyfleoedd economaidd lleol a rhanbarthol ynghyd â bod yn fwy sensitif i fanteision y cyfleoedd hyn, arwain at effaith fanteisiol ganolig (mae hyn yn ystyried dylanwadau penodol i safle ynghyd â dylanwadau cenedlaethol a rhyngwladol).	O ran poblogaeth gyffredinol (y rhan fwyaf o bobl) Cymru a thu hwnt i ffiniau Cymru, caiff effaith weddilliol gyffredinol y Prosiect ar iechyd y boblogaeth ei hystyried yn effaith fanteisiol fach . O ran grwpiau agored i niwed perthnasol, gallai'r cyfuniad o gael trydan carbon isel di-dor sy'n fforddiadwy ynghyd â bod yn fwy sensitif i'w fanteision arwain at effaith fanteisiol ganolig (mae hyn yn ystyried dylanwadau penodol i safle ynghyd â dylanwadau lleol a rhanbarthol).

Tabl 2-2 Crynodeb o'r effeithiau iechyd a lles ar gyfer grwpiau a allai fod yn agored i niwed mewn poblogaethau daeryddol

	Grwpiau a allai fod yn agored i niwed			
	Plant a phobl ifanc	Pobl hŷn	Pobl sydd ag iechyd gwael ar hyn o bryd (iechyd meddwl a chorfforol)	Pobl sy'n ddifreintiedig, gan gynnwys y rhai ar incwm isel
Disgrifiad o'r effeithiau iechyd a lles	Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol: <u>Adeiladu</u> (effeithiau tymor canolig a fydd yn para blynyddoedd)	Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol: <u>Adeiladu</u> (effeithiau tymor canolig a fydd yn para blynyddoedd)	Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol: <u>Adeiladu</u> (effeithiau tymor canolig a fydd yn para blynyddoedd)	Mae effeithiau ar iechyd a lles yn ymwneud â'r dylanwadau cyfun sy'n deillio o'r canlynol: <u>Adeiladu</u> (effeithiau tymor canolig a fydd yn para blynyddoedd)

	Grwpiau a allai fod yn agored i niwed			
	Plant a phobl ifanc	Pobl hŷn	Pobl sydd ag iechyd gwael ar hyn o bryd (iechyd meddwl a chorfforol)	Pobl sy'n ddifreintiedig, gan gynnwys y rhai ar incwm isel
	<ul style="list-style-type: none"> ansawdd aer, llwch ac allyriadau sŵn ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd (gan gynnwys lefelau uchel o allyriadau yn y tymor byr a'r tymor byr iawn); gostyngiad o ran diogelwch ar y ffyrdd, yn ogystal â rhagor o allyriadau sŵn ac ansawdd aer o gerbydau'r Prosiect ar y rhwydwaith ffyrdd lleol; presenoldeb y gweithwyr adeiladu yn cyfrannu at afiechydon trosglwyddadwy, cymunedau llai iach neu lai diogel a newidiadau i rwydweithiau cymdeithasol a diwylliant; newidiadau diwylliannol, economaidd a gweledol i hunaniaeth a chyd-destun lleol (gan gynnwys goleuadau yn ystod y nos); newidiadau mewn gweithgarwch corfforol oherwydd effeithiau niweidiol a dargyfeiriadau (ee llwybrau cerdded a beicio) ac effeithiau manteisiol yn sgil cyfleoedd eraill sy'n cael eu darparu; manteision diogelwch y ffyrdd o'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025, yn ogystal â defnyddio'r Cyfleuster Parcio a Theithio a'r Ganolfan Logisteg i leihau symudiadau cerbydau ychwanegol ar yr A5025; manteision yn sgil y Gwelliannau i Briffordd yr A5025 mewn cymunedau sy'n cael eu hosgoi, a hynny o ganlyniad i lai o sŵn traffig; effeithiau manteisiol yn sgil helpu pobl leol i wella eu sgiliau a chael swyddi yn ystod y cam adeiladu; <p><u>Gweithredu</u> (effeithiau tymor hir a fydd yn para degawdau)</p> <ul style="list-style-type: none"> effeithiau manteisiol yn sgil helpu pobl leol i wella eu sgiliau a llenwi swyddi yn ystod y cam gweithredu; effeithiau economaidd manteisiol ehangach yn sgil gwell rhwydwaith priffyrdd oherwydd y Gwelliannau i Briffordd yr A5025; a mantais iechyd genedlaethol yn sgil cyflenwad trydan fforddiadwy a di-dor. 	<ul style="list-style-type: none"> ansawdd aer, llwch ac allyriadau sŵn ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd (gan gynnwys lefelau uchel o allyriadau yn y tymor byr a'r tymor byr iawn); gostyngiad o ran diogelwch ar y ffyrdd, yn ogystal â rhagor o allyriadau sŵn ac ansawdd aer o gerbydau'r Prosiect ar y rhwydwaith ffyrdd lleol; presenoldeb gweithwyr adeiladu yn cyfrannu at afiechydon trosglwyddadwy ac at newidiadau i rwydweithiau cymdeithasol a diwylliant; effaith niweidiol bosibl o ganlyniad i athreuliad llafur mewn gwasanaethau iechyd a gofal iechyd yn y gymuned; newidiadau diwylliannol, economaidd a gweledol i hunaniaeth a chyd-destun lleol (gan gynnwys goleuadau yn ystod y nos); newidiadau mewn gweithgarwch corfforol oherwydd effeithiau niweidiol a dargyfeiriadau (ee llwybrau cerdded a beicio) ac effeithiau manteisiol yn sgil cyfleoedd eraill sy'n cael eu darparu; manteision diogelwch y ffyrdd o'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025, yn ogystal â defnyddio'r Cyfleuster Parcio a Theithio a'r Ganolfan Logisteg i leihau symudiadau cerbydau ychwanegol ar yr A5025; manteision yn sgil y Gwelliannau i Briffordd yr A5025 mewn cymunedau sy'n cael eu hosgoi, a hynny o ganlyniad i lai o sŵn traffig, gwell diogelwch ar y ffyrdd ac o ganlyniad i hyrwyddo rhwydweithiau cymdeithasol cryfach a mwy o gymorth cymdeithasol; <p><u>Gweithredu</u> (effeithiau tymor hir a fydd yn para degawdau)</p> <ul style="list-style-type: none"> effeithiau economaidd manteisiol ehangach yn sgil gwell rhwydwaith priffyrdd oherwydd y Gwelliannau i Briffordd yr A5025; a mantais iechyd genedlaethol yn sgil cyflenwad trydan fforddiadwy a di-dor. 	<ul style="list-style-type: none"> ansawdd aer, llwch ac allyriadau sŵn ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd (gan gynnwys lefelau uchel o allyriadau yn y tymor byr a'r tymor byr iawn); amseroedd siwrneiau hirach yng nghyswllt iechyd, yn ogystal â rhagor o allyriadau sŵn ac ansawdd aer yn sgil cerbydau'r Prosiect ar y rhwydwaith ffyrdd lleol; presenoldeb gweithwyr adeiladu yn cyfrannu at y pwysau ar gapasiti'r GIG (ond, mae'n debyg y gallwn sicrhau buddion drwy alinio â'r GIG i feithrin capasiti lleol); effaith niweidiol bosibl o ganlyniad i athreuliad llafur mewn gwasanaethau iechyd a gofal iechyd yn y gymuned; newidiadau mewn gweithgarwch corfforol oherwydd effeithiau niweidiol a dargyfeiriadau (ee llwybrau cerdded a beicio) ac effeithiau manteisiol yn sgil cyfleoedd eraill sy'n cael eu darparu; manteision yn sgil y Gwelliannau i Briffordd yr A5025 mewn cymunedau sy'n cael eu hosgoi, a hynny o ganlyniad i lai o sŵn traffig, gwell diogelwch ar y ffyrdd ac o ganlyniad i hyrwyddo rhwydweithiau cymdeithasol cryfach a mwy o gymorth cymdeithasol; <p><u>Gweithredu</u> (effeithiau tymor hir a fydd yn para degawdau)</p> <ul style="list-style-type: none"> manteision ehangach yn sgil gwell rhwydwaith priffyrdd ar ôl gwneud y Gwelliannau i Briffordd yr A5025, sef manteision economaidd ac amseroedd siwrneiau gwell i'r gymuned wledig wrth gael gafael ar ofal iechyd; a mantais iechyd genedlaethol yn sgil cyflenwad trydan fforddiadwy a di-dor. 	<ul style="list-style-type: none"> bydd presenoldeb y gweithwyr adeiladu yn cyfrannu at y gystadleuaeth am dai; effaith niweidiol bosibl o ganlyniad i athreuliad llafur mewn gwasanaethau iechyd a gofal iechyd yn y gymuned; iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â dealltwriaeth o risg, sut mae risgiau a manteision Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn cael eu deall, a'r disgwyliadau sydd gan bobl ynglŷn â Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd; effeithiau manteisiol yn sgil helpu pobl leol i wella eu sgiliau a chael swyddi yn ystod y cam adeiladu; effeithiau economaidd manteisiol o ganlyniad i weithwyr yn gwario arian yn lleol; manteision yn sgil y Gwelliannau i Briffordd yr A5025 mewn cymunedau sy'n cael eu hosgoi, a hynny yn dilyn hyrwyddo rhwydweithiau cymdeithasol cryfach a gwell cymorth cymdeithasol; <p><u>Gweithredu</u> (effeithiau tymor hir a fydd yn para degawdau)</p> <ul style="list-style-type: none"> effeithiau manteisiol yn sgil helpu pobl leol i wella eu sgiliau a llenwi swyddi yn ystod y cam gweithredu; effeithiau economaidd manteisiol ehangach yn sgil rhwydwaith priffyrdd gwell ar ôl gwneud Newidiadau i Briffordd yr A5025; y fantais iechyd genedlaethol yn sgil cyflenwad trydan fforddiadwy a di-dor; a mantais iechyd fyd-eang yn sgil lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.
Arwyddocâd effeithiau iechyd a lles	Oherwydd y camau datblygu a ffactorau eraill (ee treulio mwy o amser yn yr awyr agored a gorffwys yn ystod y dydd), mae plant a phobl ifanc yn fwy sensitif i lygredd aer ac aflonyddwch cwsg. Hefyd, mae plant a phobl ifanc yn sensitif i risgiau o ran diogelwch y	Mae elfennau bregus pobl hŷn yn ymwneud â ffactorau cymdeithasol a biolegol (ee mae dwysedd eu hesgryn is ac maent yn fwy tebygol o gael anafiadau ar ôl syrthio, neu maent yn dibynnu mwy ar rwydweithiau cymdeithasol sy'n seiliedig ar gyd-	Gall pobl sydd ag iechyd gwael eisoes fod yn fwy agored i newidiadau mewn ansawdd aer a sŵn (ee asthma gwaeth neu lai o symudedd sy'n arwain at dreulio mwy o amser gartref). Mae pobl sydd â chyflyrau iechyd tymor hir cymhleth neu	Gall pobl sy'n byw mewn amddifadedd (gan gynnwys y rheini sydd ag incwm isel) fod yn arbennig o sensitif i brisiau prynu a rhentu tai. Disgwylir effeithiau manteisiol ar gyfer pobl sy'n byw mewn amddifadedd

Grwpiau a allai fod yn agored i niwed				
	Plant a phobl ifanc	Pobl hŷn	Pobl sydd ag iechyd gwael ar hyn o bryd (iechyd meddwl a chorfforol)	Pobl sy'n ddifreintiedig, gan gynnwys y rhai ar incwm isel
	<p>ffyrdd, fel defnyddwyr y ffyrdd (cerddwyr/beicwyr) ac fel teithwyr mewn cerbydau. Gall pobl ifanc elwa'n uniongyrchol ar gyfleoedd addysgol a chyflogaeth ac yn anuniongyrchol fel dibynyddion.</p> <p>Mae disgwyl i effaith weddilliol gyffredinol y Prosiect ar iechyd y boblogaeth ar gyfer y grŵp hwn sydd o bosibl yn agored i niwed fod yn effaith fanteisiol fach. Mae hyn yn ystyried effeithiau ar draws lefelau daearyddol (penodol i safle, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol (tu hwnt i ffiniau Cymru).</p>	<p>destun cymdeithasol a thirwedd presennol). Mae pobl hŷn yn llai tebygol o elwa'n uniongyrchol ar gyfleoedd addysgol a chyflogaeth, er y gallan nhw elwa'n anuniongyrchol oherwydd bod y rheini sy'n rhoi gofal yn cael cyflogaeth o safon dda yn lleol.</p> <p>Disgwylir mai effaith niweidiol fach fydd yr effaith gyffredinol weddilliol y Prosiect ar iechyd y boblogaeth yng nghyswllt y grŵp hwn a allai fod yn agored i niwed. Mae'r canfyddiad hwn yn ystyried effeithiau ar draws amserlenni a lefelau daearyddol (penodol i safle, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol). O ran pobl hŷn, mae'r canfyddiad hefyd yn cydnabod y gallai'r effeithiau niweidiol posibl yn ystod y cam adeiladu gael mwy o ddylanwad na'r manteision posibl yn ystod y cam gweithredu.</p>	<p>lawer ohonynt yn arbennig o ddibynnol ar wasanaethau meddygol a gofal iechyd, neu'n eu defnyddio'n amlach.</p> <p>Disgwylir mai effaith niweidiol fach fydd yr effaith gyffredinol weddilliol y Prosiect ar iechyd y boblogaeth yng nghyswllt y grŵp hwn a allai fod yn agored i niwed. Mae'r canfyddiad hwn yn ystyried effeithiau ar draws amserlenni a lefelau daearyddol (penodol i safle, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol). Mae'r canfyddiad hwn hefyd yn cydnabod y gall yr effeithiau niweidiol posibl yn ystod y cam adeiladu gael mwy o ddylanwad ar bobl sydd ag iechyd gwael eisoes na'r manteision posibl yn ystod y cam gweithredu.</p>	<p>oherwydd cyfleoedd addysgol a chyflogaeth. Mae'n bwysig nodi bod gan y fath gyfleoedd y potensial i leihau anghydraddoldebau.</p> <p>Mae disgwyl i effaith weddilliol gyffredinol y Prosiect ar iechyd y boblogaeth ar gyfer y grŵp hwn sydd o bosibl yn agored i niwed fod yn effaith fanteisiol fach. Mae hyn yn ystyried effeithiau ar draws lefelau daearyddol (penodol i'r safle, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol).</p>

2.5 Beth sy'n digwydd nesaf?

- 2.5.1 Mae cyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19) fel rhan o'r cais am gydsyniad datblygu yn garreg filltir bwysig. Ond, nid dyma fydd casgliad gwaith Horizon gyda rhanddeiliaid lleol ym maes iechyd a lles.
- 2.5.2 Bydd rhanddeiliaid iechyd yn cymryd rhan drwy gydol y broses o wneud penderfyniad ynghylch y cais, ac os bydd y Prosiect yn cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy gydol y Prosiect ei hun. Byddai rhanddeiliaid ym maes iechyd yn cael cymryd rhan yn y broses o gynllunio mesurau a'u rhoi ar waith er mwyn cefnogi cymunedau a gofal iechyd lleol, yn ogystal â chymryd rhan yn y gwaith o fonitro'r Prosiect. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd bod rhanddeiliaid ym maes iechyd yn cael eu cynnwys yn barhaus, bydd Grŵp Monitro Iechyd a Lles yn cael ei sefydlu.
- 2.5.3 Bydd y cam nesaf gyda rhanddeiliaid ym maes iechyd yn ystod y cyfnod pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y cais am gydsyniad datblygu. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd Horizon yn gweithio gyda rhanddeiliaid ym maes iechyd a'r prif gontractwr (a fyddai'n adeiladu'r Orsaf Bŵer) er mwyn cadarnhau'r manylion ymarferol sydd eu hangen i roi'r mesurau lliniaru a gwella a ddisgrifir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar waith.
- 2.5.4 Os caiff y Prosiect ei gymeradwyo, byddai'r Grŵp Monitro Iechyd a Lles yn bwynt cyswllt ac yn fforwm ar gyfer trafod canlyniadau monitro, pryderon cymunedol a chyfleoedd eraill ar gyfer iechyd a lles, er enghraifft anghenion pobl ifanc sy'n newid, neu'r angen am ragor o ffocws ar gynnwys neu rymuso grwpiau lleiafrifol penodol.

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]